

## Llysnafedd a staenio

Mae bacteria a ffyngau sy'n bresennol yn naturiol yn yr awyr, dŵr ac mewn llwch cartrefi'n gallu glynu wrth arwynebau llaith a llusci i greu llysnafedd du neu staen o amryw liwiau (du, coch, pinc). Dyma'r bioffilmiau neu 'llysnafedd microbaidd' a welir mewn ceginau ac ystafelloedd ymolchi. Os na waredir y bioffilmiau hyn yn syth maent yn gallu tyfu o fewn rhai deunyddiau fel growt teils a chyrpens cawodydd, gan ddod yn nodweddion parhaol anodd eu dileu.

## Ble fydd bioffilmiau yn ymddangos?

Mae bioffilmiau yn gallu ffurfio ar unrhyw arwyneb sy'n dod i gysylltiad â dŵr, megis:

- tu fewn tapiau dŵr oer - weithiau byddant yn ffurfio llysnafedd llwyd/du yn hongian o'r tap
- o amgylch ffitiadau tapiau
- taenellwyr & cyrtens cawodydd
- teils ystafell ymolchi / cawodydd
- draeniau a sinciau
- arwynebau sinciau ceginau
- sestonau a basnau toiledau
- hambyrddau diferion oergelloedd
- dadleithyddion
- peiriannau golchi, ger y blwch powdr a sêl rwber y drws
- peiriannau creu rhew
- peiriannau diodydd

## Ydy bioffilmiau yn niweidiol?

Er eu bod yn edrych yn salw, yn gyffredinol maent yn ddiniwed a ddim yn fygythiad i iechyd.

## Camau i atal tyfiant?

Yn anffodus, nid oes unrhyw beth gallwn wneud i'r cyflenwad dŵr yfed i rwystro tyfiant bioffilmiau o fewn adeiladau cwsmeriaid. Yr unig ffordd o'u tacio yw glanhau pob arwyneb o dan fygythiad yn rheolaidd.

Mae bacteria a ffyngau angen dŵr a bwyd er mwyn tyfu a llusci. Y ffordd orau o atal tyfiant yw mesurau awyru er mwyn helpu manau llaith mewn ceginau ac ystafelloedd ymolchi i sychu'n gyflym. Yn ogystal, mae'n bwysig isafu ffynonellau bwyd bacteria a ffyngau. Mae eu 'bwyd' yn gallu cynnwys siampŵ, sebon, chwistrell gwallt, diaroglyddion, powdr golchi, llwch a bwyd cegin yn gyffredinol. Bydd cadw manau'n lân ac yn rhydd o ddarpar ffynonellau bwyd yn helpu i atal tyfiant.

Mae ffiltiri llinell a meddalyddion yn gallu cymell tyfiant bioffilmiau. Os yn defnyddio ffiltiri llinell a meddalyddion, bydd yn bwysig eu cynnal yn unol â chyfarwyddiadau'r gweithgynhyrhydd.

## Mesurau i waredu tyfiant?

Gellir gwaredu llysnafedd ar ffitiadau tap wrth lanhau tu fewn y tap neu o amgylch sylfaen y tap gyda brwsh bach (hen frwsh dannedd) ac ychydig o hylif cannu neu ddiheintio megis Milton. Cofiwch rinsio'r tap yn drylwyr wedyn.

Os byd gorchudd plastic neu ffitiad symudol arall ar eich tapiau, dylech eu tynnu a glanhau yn rheolaidd. Wrth brynu tapiau bydd yn werth edrych am rai heb ategolion plastig oherwydd maent yn gallu hwyluso tyfiant bioffilmiau / bacteria ac yn anodd eu cadw'n lân. Os oes tanc dŵr poeth sy'n derbyn dŵr o stôr yn eich croglofft, bydd hefyd yn werth prynu tapiau dŵr poeth ac oer ar wahân, neu dap sy'n cadw'r llifoedd poeth ac oer ar wahân er mwyn atal halogiad dŵr yfed gan y cyflenwad dŵr poeth. Mae tapiau poeth/oer yn addas ar gyfer bwyleri 'combi' yn unig.

Bydd glanhau arwynebau'r gegin gyda glanhawr cartref yn lladd sborau bacteria a ffyngau. Yn ogystal bydd defnyddio glanhawr mowldiau a llwydni mewn ystafelloedd ymolchi yn lladd bacteria a gwaredu bioffilmiau.

Os na fyddwch yn gwaredu tyfiant yn rheolaidd, gall ddatblygu o fewn growtiau a chyrpens cawodydd, a deunyddiau silicôn a rwber, gan eu staenio'n barhaol.

## Gwybodaeth bellach?

Galwch ein llinell gymorth **0800 052 0130**.

Un o'n rheoleiddwyr, yr Arolygaeth Dŵr Yfed, sy'n gyfrifol am sicrhau ansawdd uchel cyflenwadau dŵr cyhoeddus. Gwefan [www.dwi.gov.uk](http://www.dwi.gov.uk)